Clerc/Clerk: Anwen Jones
Cyfeiriad/Address: 10 Gorffwysfa, Dwyran, Ynys Mon, LL61 6YJ
Ffon/Tel: 07375781090
E-bost/E-mail: valleycommunitycouncil@gmail.com
Gwefan: www.cyngor-cymuned-fali.cymru
Website: www.valley-community-council.wales

| Cymraeg | English |
|---|---|
| Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Y Fali | Minutes of Valley Community Council |
| Cynhaliwyd am 7.00yh ar nos Fercher 17/06/2026 | Held on 7.00pm, Wednesday 17/06/2026 |
| Cafodd y cyfarfod ei gynnal mewn fformat hybrid yn Ysgol Gymuned y Fali, gan alluogi'r mynychwyr i gymryd rhan naill ai wyneb yn wyneb neu o bell trwy Microsoft Teams. | The meeting was held in a hybrid format at Ysgol Gymuned y Fali, allowing attendees to participate either in person or remotely via Microsoft Teams. |

**Presennol**
Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| N Tuck (Cadeirydd) | G Browne MBE (Is-Gadeirydd) |
| C Carter | E Jones |
| W Rogerson MBE | M Swaine Williams |
| C Thornhill | A Walker |
| A Williams | H Williams |

**Present**
Councillors:

| | |
|---|---|
| N Tuck (Cadeirydd) | G Browne MBE (Is-Gadeirydd) |
| C Carter | E Jones |
| W Rogerson MBE | M Swaine Williams |
| C Thornhill | A Walker |
| A Williams | H Williams |

**Hefyd yn bresennol**
Cynghorydd Sir G Jones
H Hughes, Cyfieithydd
A Jones Clerc
1 aelod o'r cyhoedd

**Also present**
County Councillor G Jones
H Hughes, Translator
A Jones Clerk
1 member of the public

| | Cymraeg | English |
|---|---|---|
| 38/2627 | **Croeso a Sylwadau Agoriadol**<br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.<br><br>Mynegodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad diffuant â'r Cyng G. Browne MBE a'i deulu yn dilyn eu profedigaeth ddiweddar. | **Welcome and Opening Remarks**<br>Everyone was welcomed to the meeting by the Chair.<br><br>The Chair expressed his sincere condolences to Cllr G. Browne MBE and his family on their recent bereavement. |
| 39/2627 | **Derbyn Ymddiheuriadau**<br>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr C Z Tattersall a S Williams.<br>Cyn/Eil: WR/CT | **To accept apologies**<br>To accept apologies by Councillors C Z Tattersall and S Williams.<br>Prop/Sec: WR/CT |
| 40/2627 | **Derbyn Datgan Buddiant Personol a/neu Rhag farnol**<br>Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol na rhagfarnol. | **To receive Declaration of Personal and/or Prejudicial Interest**<br>No personal or prejudicial interests were declared. |

41/2627 **Caniatáu i'r cyhoedd siarad ar unrhyw eitem ar yr agenda neu ofyn cwestiynau (3 munud)**

Roedd aelod o'r cyhoedd yn bresennol, fodd bynnag, ni chodwyd unrhyw gwestiynau na sylwadau.

**To allow the public to speak on any items on the agenda or ask questions (3 minutes)**

A member of the public was in attendance, however, no questions or comments were raised.

42/2627 **Diweddariad Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO)**

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi bod mewn cysylltiad â'r PCSO a chynghorodd y dylid rhoi gwybod am unrhyw faterion yn uniongyrchol i'r PCSO. Nodwyd hefyd y byddai'r PCSO yn cael ei wahodd i fynychu cyfarfod llawn yn Gorffennaf.

**PCSO Update**

The Chair reported that he had been in contact with the PCSO and advised that any issues should be reported directly to the PCSO. It was also noted that the PCSO would be invited to attend the July meeting of the Full Council.

43/2627 **Cadarnhau cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a'r cyfarfod arferol a gynhaliwyd ar 20/05/2026**

**Penderfynwyd**: i dderbyn y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.
Cyn/Eil: MSW/GB
Cytunwyd yn unfrydol

**To confirm minutes of the AGM and ordinary meetings of 20/05/2026**

**Resolved**: to accept the minutes as a true and accurate record.
Prop/Sec: MSW/GB
Agreed unanimously

44/2627 **Materion yn codi o'r cofnodion**

Lansio Adduned Cwrteisi a Pharch Un Llais Cymru (cofnod 14/2627)
Nodwyd y bydd y mater yn cael ei ddwyn gerbron eto ar ôl i'r Clerc a'r Cadeirydd adolygu'r polisïau angenrheidiol.

Station Road - Monitro Cyflymder (cofnod 23/2627.6)
Cadarnhawyd bod y Cyngor Sir wedi cael ei hysbysu gan yr aelod lleol y Cyng G.Jones ac y bydd yn gweithredu i gynnal ymarfer monitro cyflymder.

**Matters arising from minutes**

Launch of the One Voice Wales Pledge on Courtesy and Respect (minute 14/2627)
It was noted that the matter will be brought forward again once the Clerk and the Chair have reviewed the necessary policies.

Station Road (Speed Monitoring) (minute 23/2627.6)
It was confirmed that the County Council had been notified by the local member, Cllr G. Jones, and that it will proceed to undertake a speed monitoring exercise.

45/2627 **Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Grŵp Gweithio a gynhaliwyd ar 02/06/2026**

**Penderfynwyd:** i dderbyn y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.
Cyn/Eil: NT/MSW
Cytunwyd yn unfrydol

**To confirm the minutes of the Working Group meeting held on 02/06/2026**

**Resolved:** to accept the minutes as a true and accurate record.
Prop/Sec: NT/MSW
Agreed unanimously

46/2627 **Cadarnhau cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ynys Wen a gynhaliwyd ar 08/06/2026 ac i ystyried unrhyw argymhellion a gynhwysir ynddynt**

**To confirm the minutes of the Ynys Wen Committee meeting held on 08/06/2026 and to consider any recommendations contained therein**



Arwyddwyd / Signed:

Dyddiad / Date: 15/07/2026

Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 75/2627 (cyfarfod 15/07/2026).
*Approval reference for these minutes: 75/2627 (meeting of 15/07/2026)*

Cyflwynwyd yr eitem gan Gadeirydd y Pwyllgor

The item was introduced by the Chair of the Committee.

**Penderfynwyd**: i dderbyn y cofnodion o'r Pwyllgor Ynys Wen fel cofnod gwir a chywir.
Cyn/Eil: WR/MSW
Cytunwyd yn unfrydol

**Resolved**: to accept the minutes of the Ynys Wen Committee as a true and accurate record.
Prop/Sec: WR/MSW
Agreed unanimously

Ystyriodd yr Aelodau'r argymhelliad gwreiddiol i gymeradwyo prynu mainc model Chichester.

Members considered the original recommendation to approve the purchase of a Chichester model bench.

**Penderfynwyd:** cymeradwyo prynu mainc model Riber (1400mm) ar gyfer Mynwent Ynys Wen o gronfeydd cyllideb Ynys Wen, ynghyd â phlac coffa newydd am £521.34 ac TAW.
Cytunwyd ymhellach y byddai'r fainc hon yn cael ei harchebu ar yr un pryd ag eitemau dodrefn stryd ychwanegol, sydd yn amodol ar ganlyniad y cais grant.
Cyn/Eil: GB/NT
Cytunwyd yn unfrydol

**Resolved:** to approve the purchase of a Riber model bench (1400mm) for Ynys Wen Cemetery from Ynys Wen budget funds, together with a replacement memorial plaque for £521.34 + VAT.
It was further agreed that this bench would be ordered at the same time as additional street furniture, which is subject to the outcome of a grant application.
Prop/Sec: GB/NT
Agreed unanimously

47/2627 **Cadarnhau cofnodion cyfarfod Pwyllgor Parciau a gynhaliwyd ar 10/06/2026 ac i ystyried unrhyw argymhellion a gynhwysir ynddynt**

Cyflwynwyd yr eitem gan Gadeirydd y Pwyllgor, lle nodwyd bod y cynnwys yn gywir. Penderfynwyd derbyn y cofnodion ac y byddai'r argymhellion yn cael eu trafod a'u penderfynu ymhellach o dan eitem 53/2627.

**To confirm the minutes of the Parks Committee meeting held on 10/06/2026 and to consider any recommendations contained therein**

The item was introduced by the Chair of the Committee, who noted that the content was correct. It was resolved to accept the minutes and that the recommendations would be discussed and determined further under item 53/2627.

**Penderfynwyd**: i dderbyn y cofnodion o'r Pwyllgor Parciau fel cofnod gwir a chywir.
Cyn/Eil: EJ/CT
Cytunwyd yn unfrydol

**Resolved**: to accept the minutes of the Parks Committee as a true and accurate record.
Prop/Sec: EJ/CT
Agreed unanimously

48/2627 **Penodi aelod i'r Pwyllgor Parciau (yn dilyn pendodiad dros dro blaenorol)**

**To appoint a member to the Parks Committee (following previous temporary appointment)**

Nodwyd ymddiswyddiad y Cyng A. Walker, a oedd wedi'i phenodi'n flaenorol ar sail dros dro.

Members noted the resignation of Cllr A. Walker, who had previously been appointed on a temporary basis.

**Penderfynwyd**: penodi'r Cyng C. Carter yn aelod o'r Pwyllgor Parciau i lenwi'r swydd wag, gan ddod â'r Pwyllgor i'w aelodaeth lawn o bum aelod.
Cyn/Eil: AW/CT
Cytunwyd yn unfrydol

**Resolved**: to appoint Cllr C. Carter as a member of the Parks Committee to fill the vacant position, bringing the Committee to its full complement of five members..
Prop/Sec: AW/CT
Agreed unanimously



Arwyddwyd / Signed:

Dyddiad / Date: 15/07/2026

Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 75/2627 (cyfarfod 15/07/2026).
*Approval reference for these minutes: 75/2627 (meeting of 15/07/2026)*

49/2627 **Set Wag – Ward y Pentref**

Nododd y Cyngor y sedd wag yn dilyn marwolaeth y Cyng K. Taylor. Cyhoeddwyd yr hysbysiad cyhoeddus cyntaf o'r swydd wag achlysurol ar 15 Mehefin, gyda dyddiad cau o 3 Gorffennaf. Os na dderbynnir cais am etholiad, bydd y Cyngor yn mynd ati i hysbysebu'r swydd wag ar gyfer cyfethol.

Nododd y Cadeirydd y gallai'r dyddiad cau posib ar gyfer cyfethol ddisgyn yn ystod mis Awst pan nad oes cyfarfod o'r Cyngor wedi'i drefnu, ac y dylai pob cais gael ei gyflwyno i'r clerc tan y cyfarfod nesaf yn dilyn y dyddiad cau.

**Vacant Seat – Village Ward**

The Council noted the vacant seat following the passing of Cllr K. Taylor. The first public notice of the casual vacancy has been issued on 15 June, with a closing date of 3 July. In the event that no request for an election is received, the Council will proceed to advertise the vacancy for co-option.

The Chair noted that the closing date for co-option may fall during August when no Council meeting is scheduled, and that all applications should be submitted to the clerk until the next meeting following the closing date.

50/2627 **National Grid – Cronfa Cymunedol Penrhos**

Hysbysodd y Clerc yr Aelodau ei bod wedi derbyn gwybodaeth ar lafar gan swyddogion Cronfa Cymunedol Penrhos yn rhannu y bydd adroddiad cyhoeddus, yn seiliedig ar ddata a gasglwyd o'r arolwg diweddar, yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf. Nodwyd y bydd y gronfa'n cael ei gweinyddu gan drydydd parti ac y disgwylir iddi agor ar gyfer ceisiadau ym mis Medi 2026.

Nododd yr Aelodau bod rhai prosiectau posibl eisoes wedi'u hadnabod yn dilyn y sesiwn syniadau ddiweddar. Anogodd y Clerc yr Aelodau i barhau i ddatblygu eu cynigion er mwyn bod yn barod ar gyfer agor y gronfa.

Awgrymwyd hefyd y dylid trefnu sesiwn syniadau bellach ar ôl cyhoeddi adroddiad Cronfa Gymunedol Penrhos.

Nodwyd bod Cyng. W. Rogerson wedi adrodd am ddigwyddiad yn ymwneud â methiant goleuadau traffig yn gysylltiedig â gwaith National Grid Penrhos ar y Cob brynhawn 13 Mehefin. Cadarnhaodd ei fod wedi cysylltu â National Grid, a oedd wedi cydnabod y mater ac wedi nodi bod camau'n cael eu cymryd i wella'r sefyllfa.

Nodwyd hefyd bod yr aelod lleol, Cyng. G. Jones, wedi hysbysu Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.

**National Grid – Penrhos Community Fund**

The Clerk informed Members that information had been received verbally from Penrhos Community Fund officers that a public report, based on data gathered from the recent fund survey, will be published in the coming weeks. It was noted that the fund will be administered by a third party and is expected to open for applications in September 2026.

Members noted that potential projects had already been identified following the recent ideas session. The Clerk encouraged Members to continue developing their proposals in preparation for the fund opening.

It was also suggested that a further ideas session be arranged following the publication of the Penrhos Community Fund report.

It was noted that Cllr W. Rogerson reported an incident involving the failure of traffic lights associated with the National Grid Penrhos works on the Cob on the afternoon of 13 June. He confirmed that he had contacted National Grid, who acknowledged the issue and advised that actions are being taken to improve the situation.

It was also noted that the local member, Cllr G. Jones, had notified the County Council's Highways Department.



Arwyddwyd / Signed:

Dyddiad / Date: 15/07/2026

Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 75/2627 (cyfarfod 15/07/2026).

*Approval reference for these minutes: 75/2627 (meeting of 15/07/2026)*

Cyfeiriodd Cyng. M.Swaine Williams at ddigwyddiad tebyg blaenorol ar Heol Gorad a nododd fod y sefyllfa bresennol yn annerbyniol.

Cllr M.Swaine Williams referred to a similar previous incident on Gorad Road and noted that the current situation is unacceptable.

Mynegwyd diolch i Cyng. W. Rogerson MBE am ei ymdrechion rhagweithiol i fynd i'r afael â'r mater, a oedd wedi achosi aflonyddwch sylweddol brynhawn Sadwrn.

Thanks were expressed to Cllr W. Rogerson MBE for his proactive efforts in addressing the issue, which had caused significant disruption on Saturday afternoon.

51/2627 **Balchder yn Eich Cymuned – Dyraniad Cyfalaf i Gynghorau Tref a Chymuned**

**Pride in Your Community – Capital Allocation for Town and Community Councils**

Nododd yr Aelodau fod, yn dilyn yr ymateb cychwynnol ynghylch y gronfa, yn ofynnol cwblhau a chyflwyno'r ffurflen gais (Atodiad B) erbyn 30 Mehefin 2026.

Members noted that, following the initial response regarding the fund, the application form (Annex B) must be completed and submitted by 30 June 2026.

Adolygwyd y rhestr o brosiectau arfaethedig a nodwyd yn ystod y sesiwn syniadau ddiweddar, a rhoddwyd cyfle i'r Aelodau drafod pob cynnig.

The list of proposed projects identified during the recent ideas session was reviewed, and Members were given the opportunity to discuss each proposal.

Cadarnhawyd bod y Clerc wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig bod y dyfynbris ar gyfer y cloc, a ddarparwyd ym mis Rhagfyr 2025, yn parhau'n ddilys. Cytunwyd ymhellach, yn dilyn derbyn dyfynbris ar gyfer y garreg goffa, i gynnwys carreg sylfaen ychwanegol o fewn y gwaith a gynigir.

It was confirmed that the Clerk had received written confirmation that the clock quotation provided in December 2025 remains valid. It was further agreed, following receipt of the quotation for the memorial stone, to include an additional underslab within the proposed works.

Ystyriodd yr Aelodau benodi contractwr i gyflawni'r gwaith rampiau cyflymder.

Members considered the appointment of a contractor to undertake the speed ramps works.

**Penderfynwyd**: bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cael eu penodi i gyflawni'r gwaith rampiau cyflymder, yn amodol ar lwyddiant y cais grant.
Cyn/Eil: EJ / WR
Cytunwyd yn unfrydol

**Resolved:** that, subject to the grant application being successful, the Isle of Anglesey County Council be appointed to undertake the speed ramps works.
Prop/Sec: EJ / WR
Agreed unanimously

**Penderfynwyd**: cymeradwyo'r rhestr ddiwygiedig o brosiectau i'w chyflwyno fel rhan o'r cais grant, gyda chyfanswm o £23,881.02, ac i gyflwyno'r cais i'r Cyngor Sir erbyn y dyddiad cau sef 30 Mehefin 2026.
Cyn/Eil: MSW / EJ
Cytunwyd yn unfrydol

**Resolved:** to approve the updated list of projects for submission under the grant application, with a total value of £23,881.02 , and to submit the application to the County Council by the deadline of 30 June 2026.
Prop/Sec: MSW/EJ
Agreed unanimously

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r Cyng E. Jones am ei gymorth a'i ymdrechion wrth gael nifer o ddyfynbrisiau ar gyfer y prosiectau.

The Chair expressed thanks to Cllr E. Jones for his assistance and efforts in obtaining a number of quotations for the projects.



Arwyddwyd / Signed: [signature]   Dyddiad / Date: 15/07/2026

Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 75/2627 (cyfarfod 15/07/2026).
*Approval reference for these minutes: 75/2627 (meeting of 15/07/2026)*

52/2627 **Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor Cymuned**
Trafodwyd presenoldeb y Cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda'r Aelodau'n nodi bod cynghorau eraill yn cynnal llwyfannau gweithredol ac yn ystyried a ddylid mabwysiadu dull tebyg.

Trafododd yr Aelodau drefniadau posibl, gan gynnwys pwy fyddai'n gyfrifol am reoli cyfrifon, yr effaith ar lwyth gwaith y Clerc, a'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig mewn perthynas â sylwadau ar-lein. Ailadroddwyd y dylai gohebiaeth swyddogol y Cyngor barhau i gael ei chyhoeddi drwy'r Clerc.

Nodwyd bod y Clerc wedi cadarnhau bod y Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal presenoldeb cyfyngedig ar Instagram ac X, gan rannu gwybodaeth sylfaenol megis seddi gwag a chau ffyrdd. Awgrymwyd gan y Clerc bod angen i'r Cyngor benderfynu ar y math o bresenoldeb cyfryngau cymdeithasol y dymuna ei fabwysiadu, a chytunwyd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i hyn.

Nododd y Cadeirydd ei fwriad i gynnal sesiynau galw heibio er mwyn gwella ymgysylltiad â thrigolion, a chytunwyd y dylid archwilio mesurau pellach i wella cyfathrebu. Awgrymwyd hefyd y dylid rhannu'r Adroddiad Blynyddol eto eleni.

Cytunwyd ymhellach i geisio arweiniad gan Un Llais Cymru ynghylch arfer gorau ac i adolygu Polisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor.

**Penderfynwyd**: gohirio'r mater i gyfarfod yn y dyfodol hyd nes y bydd ystyriaeth bellach ac arweiniad wedi'u derbyn.
Cyn/Eil: MSW / EJ
Cytunwyd yn unfrydol

**Community Council Social Media**
The Council's social media presence was discussed, with Members noting that other smaller councils maintain active platforms and considering whether a similar approach should be adopted.

Members discussed potential arrangements, including responsibility for managing accounts, the impact on the Clerk's workload, and the risks associated with social media use, particularly in relation to online comments. It was reiterated that formal Council communications should continue to be issued through the Clerk.

It was noted that the Clerk had confirmed that the Council currently maintains a limited presence on Instagram and X, sharing basic information such as vacancies and road closures. The Clerk suggested that the Council should determine the type of social media presence it wishes to adopt, and it was agreed that further consideration should be given to this.

The Chair noted his intention to hold community surgeries to enhance engagement with residents, and it was agreed that additional measures to improve communication should be explored. It was also suggested that the Annual Report be shared again this year.

It was further agreed to seek guidance from One Voice Wales in respect of best practice and that the Council's Social Media Policy be reviewed.

**Resolved**: to defer the matter to a future meeting pending further consideration and guidance.
Prop/Sec: MSW / EJ
Agreed unanimously

## 53/2627 Materion Lleol / Local Matters

1. **Parc Mwd – adroddiad, ystyriaeth ac unrhyw argymhellion**
Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg byr o'r materion yn ymwneud â Pharc Mwd, gan gynnwys diweddariad o gyfarfod diweddar y Pwyllgor Parciau. Nodwyd bod twrnament pêl-droed wedi'i gynnal y penwythnos

**Parc Mwd – report, consideration and any recommendations**
The Chair provided a brief overview of matters relating to Parc Mwd, including an update from the recent Parks Committee meeting. It was noted that the football tournament had been

blaenorol, gyda sylwadau cadarnhaol wedi'u derbyn gan Gadeirydd y Pwyllgor Parciau gan fynychwyr ynghylch cyflwr Parc Mwd.

Nododd yr Aelodau fod yr arolygiad ROSPA blynyddol wedi'i gwblhau, gyda'r arolygydd yn rhoi adborth cadarnhaol yn ystod yr ymweliad safle, yn enwedig mewn perthynas â'r gwaith a gyflawnwyd ar yr offer chwarae ac eitemau eraill yn dilyn adroddiad y flwyddyn flaenorol.

Ystyriwyd ac fe'u cymeradwywyd argymhellion y Pwyllgor Parciau fel a ganlyn:

**Penderfynwyd**: cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Parciau.
Cynig/Eil: MSW / CT
Cytunwyd: yn unfrydol

**Penderfynwyd**: cefnogi cais i Gronfa Bioamrywiaeth Un Llais Cymru ar gyfer arwyddion gwybodaeth, blychau nythu, mentrau gwyddoniaeth dinasyddion ac offer cynnal a chadw.
Cynig/Eil: WR / MSW
Cytunwyd: yn unfrydol

Nodwyd ymhellach y byddai penodi Is-gadeirydd i'r Pwyllgor Parciau yn cael ei ohirio tan y flwyddyn ganlynol, er mwyn caniatáu i aelodau newydd ymgyfarwyddo â'r Pwyllgor a'i gyfrifoldebau.

held the previous weekend, with positive feedback received by the Chair of the Parks Committee from attendees regarding the condition of Parc Mwd.

Members noted that the annual ROSPA inspection had been completed, with the inspector providing positive feedback during the site visit, particularly in relation to the works undertaken on play equipment and other items following the previous year's report.

Recommendations from the Parks Committee were considered and approved as follows:

**Resolved**: to approve the amended Terms of Reference for the Parks Committee.
Prop/Sec: MSW / CT
Agreed unanimously

**Resolved**: to support an application to the One Voice Wales Biodiversity Fund for information signage, nest boxes, citizen science initiatives and maintenance equipment.
Prop/Sec: WR / MSW
Agreed unanimously

It was further noted that the appointment of a Vice-Chair to the Parks Committee would be deferred until the following year, to allow new members time to become familiar with the Committee and its responsibilities.

2. **<u>Cynhwysydd - Grŵp Cymunedol y Fali</u>**

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi siarad â'r unigolyn a enwir o dan yr eitem gohebiaeth yn dilyn sylwadau diweddar ar-lein. Nodwyd bod ymddiheuriad wedi'i dderbyn a'i rannu gyda'r Aelodau.

Nodwyd bod y Clerc wedi cyfathrebu i'r grŵp cymunedol y byddai'r les yn dod i ben unwaith y byddai'r cynhwysydd wedi'i symud oddi ar y safle.

**<u>Container – Valley Community Group</u>**

The Chair reported that he had spoken with the individual named under the correspondence item following recent online comments. It was noted that an apology had been received and shared with Members.

It was noted that the Clerk had communicated to the community group that the lease would come to an end once the container had been removed from the site.

3. **<u>Cais i logi Parc Mwd (Caeau/Cae rhif 3) ar gyfer digwyddiad arfaethedig</u>**

Rhannodd y Clerc fanylion cais cychwynnol i gynnal digwyddiad arfaethedig ym Mharc Mwd. Cytunwyd

**<u>Request to hire Parc Mwd (Field/Pitch 3) for a proposed event</u>**

The Clerk shared details of an initial application to hold a proposed event at Parc Mwd. It was



Arwyddwyd / Signed: Dyddiad / Date: 15/07/2026

Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 75/2627 (cyfarfod 15/07/2026).
*Approval reference for these minutes: 75/2627 (meeting of 15/07/2026)*

mewn egwyddor i ganiatáu digwyddiad o'r fath, yn amodol ar dderbyn rhagor o wybodaeth a chydymffurfio â'r gofynion sy'n gysylltiedig â'i gynnal o fewn ardal AHNE (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol).

agreed in principle to permit such an event, subject to the receipt of further information and compliance with the requirements associated with holding it within an AONB (Area of Outstanding Natural Beauty).

Bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod gyda'r ymgeisydd i drafod ymhellach.

The Clerk will arrange a meeting with the applicant to discuss further.

**Penderfynwyd**: Cytuno mewn egwyddor i ganiatáu'r digwyddiad.
Cyn/Eil: EJ/WR
Cytunwyd yn unfrydol

**Resolved**: to agree in principle to permit the event.
Prop/Sec: EJ/WR
Agreed unanimously

4. **Ynys Wen – adroddiad, ystyriaeth ac unrhyw argymhellion**

Yn ychwanegol at gofnod cyfarfod Pwyllgor Ynys Wen, nodwyd bod y glaswellt yn sefydlu'n araf yn dilyn y gwaith draenio. Nodwyd, er gwybodaeth, drefniadau claddu, a chytunwyd i fonitro capasiti at ddibenion cynllunio ymlaen llaw.

**Ynys Wen – report, consideration and any recommendations**

In addition to the Ynys Wen Committee meeting record, it was noted that the grass is establishing slowly following the drainage works. Burial arrangements were noted for information, and it was agreed to monitor capacity for forward planning purposes.

54/2627 **I ystyried a derbyn y trosolwg ariannol misol, gan gynnwys balansau'r cyfrifon, sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn ac unrhyw incwm a dderbyniwyd, ac i benderfynu derbyn y balansau hyd at 31/05/2026**

**To consider and accept the monthly financial overview, including account balances, reserves position and income received, and to resolve to accept the balances up to 31/05/2026**

**i. Balansau Cyfrifon** / **i. Account Balances**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfrif Elusennol – Busnes | £13,015.97 | Business Charitable Account | £13,015.97 |
| Cyfrif Wrth Gefn – Busnes | £35,148.47 | Business Reserves | £35,148.47 |
| Cyfrif Elusennol – Ynys Wen | £1,947.00 | Ynys Wen Charitable Account | £1,947.00 |
| Cyfrif Wrth Gefn – Ynys Wen | £10,176.40 | Ynys Wen Reserves | £10,176.40 |
| **CYFANSWM** | **£60,287.84** | **TOTAL** | **£60,287.84** |

**ii. Reserfau ac Arian wedi'i Glustnodi** / **ii. Reserves and Earmarked Funds**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Wrth Gefn Cyffredinol | £29,719.22 | General Reserves | £29,719.22 |
| Ynys Wen Wrth Gefn | £10,176.40 | Ynys Wen General Reserves | £10,176.40 |
| Man Cadw Beic | £600.00 | Bike Rack | £600.00 |
| Rampiau Parc Mwd | £2,500.00 | Parc Mwd Speed Ramps | £2,500.00 |
| Ffioedd Cyfreithiol | £900.00 | Legal Fees | £900.00 |
| Cloc – Atgyweirio | £2,029.25 | Clock | £2,029.25 |
| Rhent Maes Parcio 2025/26 | £2,758.21 | Car Park Rent 2025/026 | £2,758.21 |
| **Cyfanswm** | **£48,683.08** | **Total** | **£48,683.08** |



Arwyddwyd / Signed: [signature] Dyddiad / Date: 15/07/2026

Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 75/2627 (cyfarfod 15/07/2026).
*Approval reference for these minutes: 75/2627 (meeting of 15/07/2026)*

**iii. Incwm a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf**

**iii. Income received since last meeting**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llog Banc | £121.78 | Bank Interest | £121.78 |
| Incwm y Fynwent | £600.00 | Cemetery Receipts | £600.00 |
| **Cyfanswm** | **£721.78** | **Total** | **£721.78** |

**Penderfynwyd:** derbyn y balansau fel rhai cywir yn unol â Rheoliadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali
Cyn/Eil: MSW/WR
Cytunwyd yn unfrydol

**Resolved:** to accept the balances as correct in accordance with the Valley Community Council Financial Regulations.
Prop/Sec: MSW/WR
Agreed unanimously

55/2627 **Nodi'r taliadau rheolaidd a wnaed o dan y Rhestr o Daliadau Rheolaidd a gymeradwywyd (197/2526)**

**To note the regular payments made under the approved Schedule of Regular Payments (197/2526)**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| DD | Nest Pensiwn | £36.96 | DD | Nest Pension | £36.96 |
| DD | Cloudy Group – Cefnogaeth TG | £66.07 | DD | Cloudy Group – IT Support | £66.07 |
| DD | CSYM – Treth Cyngor Parc Mwd | £65.00 | DD | IOACC – Council Tax – Parc Mwd | £65.00 |
| DD | CSYM – Treth Cyngor Maes Parcio | £42.00 | DD | IOACC – Council Tax – Car Park | £42.00 |
| DD | Scottish Power – Parc Mwd | £56.82 | DD | Scottish Power – parc Mwd | £56.82 |
| BT | EE Mobile Phone Top Up | £5.00 | BT | EE – Mobile Phone Top Up | £5.00 |
| BT | Humphreys Waste – Parc Mwd | £24.00 | BT | Humphreys Waste – Parc Mwd | £24.00 |
| BT | Humphreys Waste – Play Area | £60.00 | BT | Humphreys Waste – Play Area | £60.00 |
| BT | Humphreys Waste – Ynys Wen | £36.00 | BT | Humphreys Waste – Ynys Wen | £36.00 |
| BT | A Jones Cyflog Mehefin | £838.35 | BT | A Jones Salary June | £838.35 |
| BT | AGS Groundcare/Liam Jones – Torri Gwair | £1,483.20 | BT | AGS Groundcare/Liam Jones – Torri Gwair | £1,483.20 |
| BT | Hywel Hughes – Cyfieithu | £200.00 | BT | Hywel Hughes – Translation | £200.00 |

Nododd yr aelodau'r taliadau rheolaidd a wnaeth o dan y Rhestr Gymeradwy o Daliadau Rheolaidd.

The members received and noted the regular payments made under the approved Schedule of Regular Payments.

56/2627 **I ystyried ac awdurdodi'r taliadau newydd a restrir, ac i gadarnhau'r taliadau debyd a wnaethpwyd ers y cyfarfod diwethaf**

**To consider and authorise new payments, and to ratify debit card payments made since the last meeting**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| BT | Smith of Derby – Cloc | £300.00 | BT | Smith of Derby – Clock Inspection | £300.00 |
| BT | Snowdonia Fire – Intruder Alarm Call Out | £243.00 | BT | Snowdonia Fire – Intruder Alarm Call Out | £243.00 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| BT | SLCC Aelodaeth y Clerc 2026 | £116.00 | BT | SLCC Clerk Membership 2026 | £116.00 |
| DC | Viking Direct | £8.78 | DC | Viking Direct – Plastic Wallets | £8.78 |
| DC | Sound Induction Systems Ltd | £78.60 | DC | Sound Induction Systems Ltd – Translator Headphone | £78.60 |

**Penderfynwyd:** i dderbyn y taliadau fel rhai cywir ac fe'u hawdurdodwyd yn unol a Rheoliadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali.
Cyn/Eil: HW/EJ
Cytunwyd yn unfrydol

**Resolved:** to accept payments as correct and were authorised in accordance with the Valley Community Council Financial Regulations.
Prop/Sec: HW/EJ
Agreed unanimously

57/2627 **Ymgynghori ar geisiadau a penderfyniadau Cynllunio**

1. Ymgynghoriad Ceisiadau Cynllunio:
Dim ceisiadau cynllunio wedi'u derbyn ar gyfer ymgynghori.

2. Penderfyniadau Cynllunio:
Ni dderbyniwyd unrhyw benderfyniadau cynllunio.

**To consult on Planning Applications and Decisions**

Planning Applications for Consultation:
No planning applications were received for consultation.

Planning Decisions:
No planning decisions were received.

58/2627 **Gohebiaeth (wedi cylchredeg):**

1. G Williams – Ymddiheuriad
Cydnabuwyd derbyn yr ymddiheuriad, a chadarnhawyd ei fod wedi'i rannu gyda'r holl aelodau.

**Correspondence (Circulated):**

1. G Williams - Apology
Receipt of the apology was acknowledged, and it was confirmed that it had been shared with all members.

59/2627 **Ymgynghoriad (wedi cylchredeg):**
CSYM - Ymgynghoriad Cyhoeddus Cam Statudol - Adolygu Map Rhwydwaith Teithio Llesol Mon 2026
Cydnabuwyd yr ymgynghoriad, a nodwyd y gallai aelodau gyflwyno ymatebion yn unigol.

**Consultation (Circulated):**
IOACC - Anglesey's Active Travel Network Map Review - Statutory Public Consultation
The consultation was acknowledged, and it was noted that members could submit individual responses.

60/2627 **Derbyn adborth gan:**

1. Fforwm Gyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – Nid oedd unrhyw gynrychiolwyr o'r Cyngor yn bresennol, bydd y Clerc yn rhannu'r cofnodion pan fyddant ar gael.
2. ULlC: Pwyllgor Ardal Ynys Mon – Dim cyfarfod wedi bod.
3. Bwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol
Dim cyfarfod wedi bod.
4. Cynghrair Bro'r Llynnoedd – Dim cyfarfod wedi bod.

**To receive feedback from:**

1. Town and Community Council Liaison Forum – No representatives from the Council were in attendance, the minutes will be shared by the Clerk when available.
2. OVW: Ynys Mon Area Meeting – No recent meeting held.
3. School Governing Board **-** No recent meeting held.

4. Bro'r Llynnoedd Alliance - No recent meeting held.

60/2627 **Hyfforddiant**

Wedi cylchredeg gan y clerc:

- Un Llais Cymru – Sesiynau Amrywiol
- Cymorth Cynllunio Cymru - Hyfforddiant Ymateb i Gynlluniau Datblygu Lleol a Strategol

**Training**

Circulated by clerk:-

- One Voice Wales – Various Modules
- Planning Aid Wales - Responding to Local & Strategic Development Plans Training

61/2627 **Eitemau i raglen y cyfarfod nesaf**

Wi-fi

**Items for the next meeting agenda**

Wi-fi

62/2627 **Dyddiad y Cyfarfodydd Nesaf**

19:00 dydd Mercher 15 Gorffennaf 2026 yn Ysgol Gymuned Y Fali a Teams

**Date of Next Meetings**

19:00 Wednesday 15 July 2026 at Valley Community School and on Teams.

*Daeth y cyfarfod i ben am 20:15*

*The meeting ended at 20:15*



Arwyddwyd / Signed:

Dyddiad / Date: 15/07/2026

Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 75/2627 (cyfarfod 15/07/2026).

*Approval reference for these minutes: 75/2627 (meeting of 15/07/2026)*